OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2015 Rhif 296 (Cy. 30)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A479 (Tretŵr i Gwmdu a Chwmdu i Lower Genffordd, Powys) (Terfyn Cyflymder 50 MYA Dros Dro) 2015

Gwnaed	*26 Ionawr 2015*
Yn dod i rym	*1 Chwefror 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Parc Glanusk – Llys-wen (yr A479) (“y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o’r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Chwefror 2015 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A479 (Tretŵr i Gwmdu a Chwmdu i Lower Genffordd, Powys) (Terfyn Cyflymder 50 MYA Dros Dro) 2015.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cyfnod y cyfyngiad” (“*restriction period*”) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 1 Chwefror 2015 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r darnau hynny o'r gefnffordd yn Sir Powys fel a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Cyfyngiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cyfyngiad, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

Cymhwyso

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafindiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 26 Ionawr 2015

R Morgan
R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLEN

i) Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt sydd 65 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â'r U0496, Tretŵr, tua'r gogledd hyd at bwynt sydd 18 o fetrau i'r de o'i chyffordd â'r U0504, Cwmdu.

ii) Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt sydd 25 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd â'r U0170, Cwmdu, tua'r gogledd hyd at bwynt sydd 165 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â'r C0087, Lower Genffordd.